

Gweithredwch ar eich morgais llog yn unig nawr

Helpwr
Arian

Os oes gennych forgais llog yn unig mae'n hanfodol cael cynllun i ad-dalu'n llwyr y swm yr ydych chi wedi'i fenthycia.

Os na wnewch chi, efallai y bydd rhaid i chi werthu'ch cartref i ad-dalu'r morgais pan ddaw'r cyfnod i ben. Felly, mae'n bwysig eich bod yn gweithredu nawr. Bydd siarad â'ch darparwr benthyciad, darparwr morgais neu gynghorydd ariannol mor gynnar â phosibl yn eich helpu chi i ddeall pa opsiynau sydd ar gael i chi ac mae'n rhoi tawelwch meddwl i chi y bydd eich morgais yn cael ei ad-dalu ar ddiwedd y cyfnod.

Os nad oes gennych gynllun...

Gweithredwch nawr! Hyd yn oed os na fydd ad-daliad yn ddyledus am gyfnod, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau y bydd y cynllun ad-dalu o'ch dewis yn talu am eich morgais.

Dilynwch y camau hyn:

- **Cysylltwch â'ch benthyciwr** Os ydych chi'n poeni na fyddwch chi'n gallu ad-dalu'ch morgais, siaradwch â'ch benthyciwr nawr. Efallai y byddwch chi'n gallu gwneud newidiadau hyd yn oed os yw eich morgais yn sefydlog. Gofynnwch i'ch benthyciwr am eich opsiynau, os ydych yn gymwys ac a oes unrhyw ffioedd cysylltiedig.
 - **Newidiwch i forgais cyfalaf a llog** i ddechrau ad-dalu'r benthyciad gwreiddiol.
 - **Newidiwch i forgais ad-daliad rhannol a llog yn unig** rhannol dros dro.
 - **Ymestynnwch gyfnod y morgais** fel bod gennych fwy o amser i dalu (ond byddwch yn talu mwy o log dros amser gyda'r opsiwn hwn).
 - **Dechreuwch wneud gordaliadau**, gan fod y rhan fwyaf o fenthycwyr yn caniatáu i chi ordalu morgais 10% bob blwyddyn heb ffioedd.
- **Dechreuwch gyllideb**
Gweler pa arian sbâr y gallech fod ganddo i'w roi tuag at ad-daliadau gyda'n **Cynlluniwr cyllideb** yn moneyhelper.org.uk/cy/budget-planner
- **Os ydych yn 55 oed neu drosodd**
Archwiliwch forgeisi llog-yn-unig ymddeol neu gynlluniau rhyddhau ecwiti, er nad dyma'r opsiwn cywir i bawb. Dysgwch ragor yn moneyhelper.org.uk/cy/homes/buying-a-home/what-is-equity-release
- **Ystyriwch leihau maint eich tŷ neu werthu** Os yw symud yn opsiwn, ceisiwch brisiad i wirio a yw'r ecwiti yn eich cartref yn ddigon i ad-dalu'r benthyciad.

- **Siaradwch â chynghorydd ariannol arbenigol** Gall cynghorwyr ariannol eich helpu i lunio cynllun buddsoddi i dalu'r morgais erbyn diwedd y tymor. Ond nid yw enillion wedi'u gwarantu, a byddant hefyd yn eich hysbysu o'r risg dan sylw. Bydd yn helpu os oes ganddynt brofiad o gynlluniau ad-dalu morgais llog yn unig. I gael help wrth ddewis, ewch i moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financial-advisers/choosing-a-financial-adviser

Oes gennych gynllun yn barod?

Dyna newyddion da! Ond mae'n bwysig gwirio'n rheolaidd ei fod ar y trywydd iawn o hyd i dalu'ch morgais.

Dilynwch y camau hyn:

- **Cysylltwch â'ch benthyciwr** Os byddwch yn oedi cyn siarad â'ch benthyciwr gallai hynny leihau'r opsiynau sydd ar gael ac effeithio ar eich gallu i wneud taliadau uwch yn y dyfodol.
- **Gwiriwch gyfnod eich morgais** Gallwch ofyn am ddatganiad morgais gan eich benthyciwr i weld faint o fisoedd a blynnyddoedd sydd ar ôl ar eich morgais.
- **Gofynnwch am ordaliadau** Os ydych chi'n gallu gwneud ad-daliadau ychwanegol, gofynnwch a yw hyn yn opsiwn i chi. Gwiriwch bob amser am unrhyw ffioedd neu daliadau am ad-dalu'n gynnar.
- **Adolygwch eich buddsoddiadau**
Cysylltwch â'ch darparwr buddsoddiadau, rheolwr cronfa neu gynghorydd ariannol i weld a yw eich buddsoddiadau ar y trywydd iawn i ad-dalu'ch morgais. Os nad ydynt, gofynnwch am amcangyfrif faint yn ychwanegol sydd angen i chi ei fuddsoddi er mwyn cael digon i ad-dalu eich morgais pan ddaw'r cyfnod i ben.
- **Gwiriwch werth eich cartref**
Os mai eich cynllun yw gwerthu'ch eiddo a phrynu cartref rhatach, gwiriwch a oes digon o ecwiti yn eich cartref i gyflawni hyn.
- **Aseswch eich cyllideb**
Cyfrifwch faint allwch chi fforddio bob mis, naill ai i ychwanegu at eich buddsoddiadau neu i wneud gordaliadau ar eich morgais – defnyddiwch ein **Cynlluniwr cyllideb** yn moneyhelper.org.uk/cy/budget-planner

Os yw'ch cynllun yn tangyflawni, po gyntaf y gweithredwch, yr hawsaf fydd hi i gyfrannu at y gwahaniaeth.

Hyd yn oed os nad yw'n bosibl cynyddu taliadau, gofynnwch i'ch benthyciwr, darparwr buddsoddiadau neu gynghorydd ariannol eich helpu i ddewis y camau gorau i'w cymryd.



Cwestiynau Cyffredin

Ym mha ffordd mae morgais llog yn unig yn wahanol i forgais cyfalaf a llog?

Gyda morgais llog yn unig, mae eich taliadau yn talu am y llog yn unig, ac nid ydych yn ad-dalu swm y benthyciad gwreiddiol tan y dyddiad terfynol. Gyda morgais cyfalaf a llog, bydd rhan o'ch taliadau misol yn mynd tuag at dalu'r benthyciad, a bydd y gweddill yn cael ei ad-dalu'n llawn ar ddiwedd y tymor.

Pam ydw i wedi derbyn llythyr oddi wrth fy narparwr benthyciadau ynglŷn â fy morgais llog yn unig er fy mod yn talu ar amser?

Mae eich rhoddwr benthyciadau yn gwybod bod eich cartref yn bwysig i chi, ac mae'n ceisio deall pa gynllun ad-dalu sydd gennych mewn lle. Felly mae'n werth rhoi galwad iddyn nhw cyn gynted â phosib er mwyn trafod eich opsiynau.

Dw i'n pryderu na fydda i'n gallu talu fy morgais yn llwyr – beth ddylwn i ei wneud?

Siaradwch â'ch rhoddwr benthyciadau yn gyntaf – byddant yn awyddus i drafod eich sefyllfa gyda chi ac yn eich helpu i ddarganfod pa opsiynau sydd ar gael os ydych yn amau na fyddwch yn gallu talu'ch morgais yn llawn erbyn y dyddiad y cytunwyd arno.

O ble arall fedra i gael cyngor ynglŷn â beth i wneud am fy morgais llog yn unig?

Os na allwch ddod i ddatrysiaid gyda'ch rhoddwr benthyciadau, gallwch gael cyngor. Mae rhagor o wybodaeth yn moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financial-advisers/choosing-a-financial-adviser

A fydd fy nghartref yn cael ei ailfeddiannu os na fedraf ad-dalu fy morgais ar amser?

Dim ond pan fetho popeth arall y caiff eich cartref ei ailfeddiannu – bydd darparwyr benthyciadau o hyd yn gwneud eu gorau glas i gydweithio â chi i ddod o hyd i ddatrysiaid gwell. Mae'n bosib, fodd bynnag, y bydd rhaid i chi werthu'ch tŷ i ad-dalu'ch morgais os nad oes gennych gynllun ad-dalu arall.

Offer defnyddiol

Cynlluniwr cyllideb

<http://moneyhelper.org.uk/cy/budget-planner>

Cyfrifianellau morgais

moneyhelper.org.uk/cy/homes/buying-a-home/mortgage-calculator

HelpwrArian

Mae HelpwrArian yn annibynnol ac yn cael ei gefnogi gan y llywodraeth i'ch helpu i wneud y gorau o'ch arian. Rydym yn rhoi arweiniad arian a phensiynau diduedd am ddim i bawb ledled y DU – ar-lein a thros y ffôn.

Ewch i ni yn moneyhelper.org.uk/cy

Neu cysylltwch â ni ar:

Ffôn

Arweiniad ar arian

DU: **0800 138 7777**

os ydych y tu allan i'r DU

+44 20 3553 2279 Llun – Gwe 8am i 6pm

Arweiniad ar bensiynau

DU: **0800 011 3797**

os ydych y tu allan i'r DU

+44 20 7932 5780 Llun – Gwe 9am i 5pm

Gwe-sgwrs:

moneyhelper.org.uk/moneychat

moneyhelper.org.uk/cy/pensions-chat

WhatsApp

+44 7701 342744 (arweiniad ar arian yn unig)

Cymunedau ar-lein

Ymunwch â'n grwpiau Facebook am gymorth:

moneyhelper.org.uk/cy/blog/everyday-money/come-and-join-our-online-communities

Cymerwch reolaeth dros eich morgais llog yn unig heddiw, neu darganfyddwch ragor yn moneyhelper.org.uk/cy/homes/buying-a-home/ways-of-repaying-an-interest-only-mortgage

**Helpwr
Arian**

Gan y
**Gwasanaeth
Arian a
Phensiynau**

Mae'r Cyhoeddiad hwn ar gael yn y Saesneg.

Mae galwadau o'r DU am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn recordio neu fonitro galwadau.

Fformatau hygyrch

Os hoffech chi gael y canllaw hwn mewn Braille, print bras neu fformat sain, cysylltwch â ni ar y rhifau uchod. Gwybodaeth yn gywir adeg argraffu (Ebrill 2026). Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

© HelpwrArian Ebrill 2026

Cymraeg

MIX
Paper | Supporting
responsible forestry
FSC® C003270

Cyf: TAWYIOMN_Apr26_Ed1_Welsh